**DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981**

**MAP A DATGANIAD DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**GORCHYMYN ADDASU MAP DIFFINIOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (YCHWANEGU CILFFORDD GYFYNGEDIG YN ARWAIN O LWYBR TROED 8 CEFN CRIBWR I TY-ISAF ROAD) RHIF 1 2024**

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("yr awdurdod") o dan Adran 53(2)(b) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("y Ddeddf") am ei bod yn ymddangos i'r awdurdod hwnnw fod angen addasu Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ganlyniad i ddigwyddiad a bennir yn Adran 53(3)(c)(ii) o'r Ddeddf, sef bod yr awdurdod wedi darganfod tystiolaeth sy'n dangos (o'i hystyried gyda'r holl dystiolaeth arall sydd ar gael iddo) fod hawl dramwy sydd heb ei dangos ar y map a'r datganiad diffiniol yn bodoli neu yr honnir yn rhesymol ei bod yn bodoli dros dir yn yr ardal y mae'r map yn ymwneud â hi, sef hawl dramwy sy'n golygu bod y tir y mae'r hawl yn bodoli drosto yn gilffordd gyfyngedig.

Mae'r awdurdod wedi ymgynghori â phob awdurdod lleol y mae ei ardal yn cynnwys y tir y mae'r gorchymyn yn cyfeirio ato.  Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr drwy hyn yn gorchymyn:

1. mai'r dyddiad perthnasol, at ddibenion y Gorchymyn hwn, yw'r dyddiad y gwneir y Gorchymyn.

2. yr addasir Map a Datganiad Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel y'i disgrifir yn Rhan I a Rhan II o'r Atodlen ac fel y'i dangosir ar y map a atodwyd i'r Gorchymyn.

3. y daw'r Gorchymyn hwn yn effeithiol ar y dyddiad y'i cadarnheir a'i enw yw Gorchymyn Addasu Map Diffiniol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Ychwanegu Cilffordd Gyfyngedig yn Arwain o Lwybr Troed 8 Cefn Cribwr i Ty-Isaf Road) Rhif 1 2024.

Gosodwyd SÊL GYFFREDIN )
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL )
PEN-Y-BONT AR OGWR ar hyn ar y )
dydd o 2024 )
yng ngŵydd:- )

LLOFNODYDD AWDURDODEDIG:

# ATODLEN
# RHAN I

## Addasu'r Map Diffiniol

### Disgrifiad o'r llwybr neu'r ffordd sydd i'w hychwanegu

Mae'r Gilffordd Gyfyngedig sydd i'w hychwanegu yn dechrau wrth ei chyffordd â Llwybr Troed 8 Cefn Cribwr wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 85458209), gan barhau tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain yn gyffredinol am ryw 185 metr hyd at ei chyffordd â'r briffordd gynaliadwy bresennol yn Tŷ-Isaf Road, Pwynt B (Cyfeirnod Grid SS 85518226).

Bydd y Gilffordd Gyfyngedig sydd i'w hychwanegu yn 3 metr o led ac fe'i dangosir rhwng Pwyntiau A – B ar y map sydd ynghlwm wrth y Gorchymyn hwn.

Lled – 3 metr
Hyd – 185 metr

# RHAN II


## Addasu'r Datganiad Diffiniol


### Amrywio manylion y llwybr neu'r ffordd

Ychwaneger y canlynol at y Datganiad Diffiniol ar gyfer Cefn Cribwr:-

Mae'r Gilffordd Gyfyngedig yn dechrau wrth ei chyffordd â Llwybr Troed 8 Cefn Cribwr wrth Gyfeirnod Grid SS 85458209 gan redeg tua'r gogledd-ogledd-ddwyrain yn gyffredinol am ryw 185 metr hyd at ei chyffordd â'r briffordd gynaliadwy bresennol yn Tŷ-Isaf Road, Pwynt B (Cyfeirnod Grid SS 85518226).

Lled – 3 metr
Hyd – 185 metr




**BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL**
**ADDITION OF RESTRICTED BYWAY LEADING FROM FOOTPATH 8 CEFN CRIBWR TO TY ISAF ROAD**
**DEFINITIVE MAP MODIFICATION ORDER NO. 1 2024**

**Key**

Restricted Byway to be added (A-B)

Exisiting Public Footpaths

Scale 1: 2000

N W E S


Janine Nightingale
Corporate Director - Communities
Communities Directorate

Bridgend County Borough Council
Civic Offices,
Angel Street,
Bridgend,
CF31 4WB



©Crown Copyright and database right 2023. Ordnance Survey AC0000851951.
©Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2023. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans AC0000851951.
Aerial Imagery: Cities Revealed aerial photography copyright The GeoInformation Group 2011.
Copyright Getmapping plc.
Countryside Council for Wales. ©Crown Copyright and database right 2011.
Ordnance Survey 100018813.
Forestry Commission. ©Crown Copyright and database right 2011. Ordnance Survey 100025498.